Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD – CYF.** DLl 052

**Amseru:** Brys
Cyflwynwyd y penderfyniad i Fwrdd Gweithredol VAWDASV yng nghyfarfod 12/10/17

**Teitl:** Comisiynu Gwasanaeth Trais Domestig Cynghorol Annibynnol ar y Cyd

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Comisiynu

**Crynodeb Gweithredol:**

Yn hanesyddol, rhoddwyd grantiau Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol er mwyn i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol gomisiynu gwasanaethau Trais Domestig Cynghorol Annibynnol (TDCA). Yn 2014, yn seiliedig ar bryderon bod gallu TDCA ledled Dyfed-Powys llawer is na'r hyn a argymhellir ar gyfer nifer y troseddwyr perygl uwch sy'n cael eu cyfeirio i Gynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth, comisiynodd y CHTh wasanaeth TDCA ategol ar draws yr ardal heddlu am £228,000 y flwyddyn. Daw'r cytundeb i ben ar 31 Mawrth 2018.

Yn atodedig isod y mae adroddiad argymell sydd i'w rannu â Bwrdd Gweithredol Trais Rhywiol, Cam-drin Domestig a Thrais yn Erbyn Menywod Dyfed-Powys yn cynnig comisiynu gwasanaethau TDCA ar y cyd o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r rhesymwaith ar gyfer gwasanaeth ar y cyd, y gallu sydd angen, trefniadau llywodraethu ac amserlenni ar gyfer cyflwyno.

Yn seiliedig ar gynnwys yr adroddiad hwn, argymhellir fod y Comisiynydd yn rhoi £200,000 tuag at y gwasanaeth a gomisiynir ar y cyd i'w dendro mewn amser ar gyfer darpariaeth o 2018/19 ymlaen.

**Argymhelliad:**
Gofynnir i'r Comisiynydd gymeradwyo rhoi £200,000 tuag at y gwasanaeth trais domestig cynghorol annibynnol a gomisiynir ar y cyd i'w dendro mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol ledled Dyfed-Powys ar gyfer 2018/19 ymlaen.

| |
|---|
| **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**<br><br>Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion NOLAN ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.<br><br>Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod |

| | |
|---|---|
| **Llofnod:** [signature] | **Dyddiad:** 27/10/2017 |

## Darpariaeth gwasanaeth Trais Domestig Cynghorol Annibynnol (TDCA) ar gyfer Dyfed-Powys

*Cyd-destun*

Mae'r Grŵp Strategol a'r Bwrdd Gweithredol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol (VAWDASV) yn gyfrifol am gynllunio a gweithredu'r strategaeth VAWDASV ledled Dyfed-Powys. Rhan gyntaf y strategaeth hon yw comisiynu darpariaeth gwasanaethau TDCA ar y cyd er mwyn cyflawni cyflenwi cyson ac effeithiol o wasanaethau rheng flaen i ddioddefwyr cam-drin domestig mynych a pherygl uwch.

Mae Asesiad Anghenion a dogfen strategaeth lawn yn cael eu datblygu gan yr ymgynghorydd Rhian Bowen-Davies. Felly pam mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei gomisiynu cyn datblygu'r strategaeth ranbarthol?

- Mae'r gwasanaeth yn rhan integrol o ymateb holistig ehangach i VAWDASV
- Mae'r data a'r dystiolaeth o angen eisoes wedi'u nodi drwy setiau data cenedlaethol ac mae'n ofyniad sy'n cael ei gydnabod o fewn yr ardal
- Bu trafodaethau parhaus ers blynyddoedd mewn perthynas â manteision ymuno â gwasanaeth a gomisiynir ar y cyd
- Gyda dyddiadau diwedd cytundebau'n alinio, a'r gwaith VAWDASV yn cael ei ddatblygu, dyma gyfle realistig i gomisiynu gwasanaeth rhanbarthol ar y lefel a argymhellir i ymateb i anghenion unigolion a theuluoedd yn y rhanbarth
- Bydd gwasanaeth a gomisiynir ar y cyd yn darparu:
  - Gallu digonol, os nad ychwanegol
  - Cadernid o fewn y gwasanaethau
  - Hygyrchedd
  - Cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol o fewn y gwasanaeth.
- Rhan o'r rhesymwaith dros ryddhau hyn yn gynnar oedd sicrhau bod darparwyr, ac yn bwysicach na hynny, staff, yn dawel eu meddwl fod cynlluniau mewn grym i barhau â'r ddarpariaeth gwasanaeth. O ystyried hanes cylchoedd ariannu blynyddol a'r ansicrwydd a'r ansefydlogrwydd a ddaw yn sgil hynny, mae'n hollbwysig sicrhau bod cynlluniau'n dryloyw ar gyfer y dyfodol tymor hirach ac nad ydym mewn perygl o golli unigolion cynnwys, hyfforddedig o'r gwasanaethau cyfredol.

Yn unol â'r uchod, cynigir tymor cytundeb o 3 blynedd gyda'r dewis i'w estyn am ddau gyfnod 12 mis ychwanegol. Bydd hyn yn darparu sefydlogrwydd a chysondeb o ran darpariaeth gwasanaeth nad oedd modd cyflawni ar gylchoedd ariannu blynyddol hanesyddol.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, ynghyd â'r pedwar Awdurdod Lleol o fewn rhanbarth Dyfed-Powys (y Comisiynwyr), wedi cyhoeddi PIN drwy GwerthwchiGymru er mwyn darparu crynodeb byr o'u

bwriadau a chynhaliwyd digwyddiad 'cwrdd â'r prynwr' ar 3 Hydref er mwyn galluogi cynigwyr i drafod materion cysylltiedig yn fanylach.

Datblygwyd manyleb ddrafft ac mae'n cael ei gorffen rhwng rhanddeiliaid allweddol ar hyn o bryd. Cynhwysir uchafbwyntiau'r gwasanaeth y gofynnwyd amdani yn Atodiad i.

*Darpariaeth gyfredol*

| | Sir Gaerfyrddin | Ceredigion | Sir Benfro | Powys | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **TDCA (cyfwerth â llawn amser) a argymhellir gan Fywydau Diogel yn seiliedig ar achosion MARAC cyfredol** | 5.5 | 2 | 3.5 | 4 | 15 |
| **Lefel achosion argymylledig ar gyfer y boblogaeth** | 3.5 | 1.5 | 2.5 | 3 | 10.5 |
| **TDCA a ariennir gan yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd** | 1.8 | 0.8 | 1 | 2 | 5.6 |
| **TDCA a ariennir gan y CHTh** | 1.3 + 0.5 gweithiwr cymorth | 1 | 1.3 + 0.3 gweithiwr cymorth | 1.4 + 0.5 gweithiwr cymorth | 5 + 1.3 gweithiwr cymorth |
| **CYFANSWM y ddarpariaeth TDCA gyfredol** | 3.1 TDCA | 1.8 TDCA | 2.3 TDCA | 3.4 TDCA | 10.6 TDCA |

*nid yw hyn yn llawn adlewyrchu cyfanswm yr oblygiadau cost fel yr amlinellir isod

Yn ôl data Bywydau Diogel ar gyfer 2016/17:

- Cyfanswm yr achosion MARAC yn Nyfed-Powys oedd 1,373.
- Yr achosion argymylledig ar gyfer Dyfed-Powys yn seiliedig ar boblogaeth yw 870.
- Mae Dyfed-Powys yn cofnodi 65 achos fesul 10,000 o'r boblogaeth oedolion benywaidd. Y lefel a argymhellir yw 40, a'r cyfartaledd cenedlaethol yw 35. Mae gwaith yn parhau er mwyn mynd i'r afael â'r mater o gofnodi/adrodd yn MARAC o fewn Dyfed-Powys. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso hyn yn erbyn y gydnabyddiaeth fod niferoedd yn debygol o gynyddu gyda gweithrediad Deddf VAWDASV - Gofyn a Gweithredu ayyb.

Gan hynny, mae ein gofynion ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol yn debygol o gynyddu. Mae Comisiynwyr yn cynnig gofyn am raddfa lithr o'r status quo o ddarpariaeth gyfredol hyd at y gallu dymunol pennaf, fel ein bod ni'n medru nodi costau sydd angen a chael y potensial i ehangu yn y dyfodol.

*Materion*

- Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y dylai grantiau pellach a dderbynnir gan Awdurdodau Lleol gael eu blaenoriaethu ar gyfer darpariaeth gwasanaeth rheng flaen gyda chydlynu a chymorth swyddfa gefn yn cael eu darparu drwy ffynonellau amgen
- Fel y dangosir gan gytundebau cyfredol, mae'n glir nad oes cysondeb o ran costio uned darpariaeth TDCA
- Mae'r rhan fwyaf o gytundebau gwasanaeth sy'n bodoli eisoes yn seiliedig ar gostau hanesyddol ac nid ydynt wedi derbyn unrhyw godiadau dros amser yn unol â chwyddiant
- Er enghraifft, nid yw lefelau arian grant yng Ngheredigion yn darparu ar gyfer costau llawn cynnal y swydd ac mae'r diffyg yn cael ei amsugno gan y cyflogwr lletyol
- Nid yw'r grant Llywodraeth Cymru a dderbyniwyd gan Bowys ar gyfer 2017/18 yn darparu ar gyfer cost lawn y gwasanaeth, gyda chyfraniad yn cael ei ddarparu gan gyllideb Llywodraeth Leol graidd
- Mae datganiad diweddaraf Sir Gaerfyrddin i Lywodraeth Cymru'n datgan bod y gwasanaeth Llywodraeth Leol wedi ei ostwng ond mae'n cael cymhorthdal gan y cytundeb CHTh
- Daw'r holl drefniadau cyfredol i ben ar 31 Mawrth 2018

Ar gyfartaledd, cyflog TDCA yng Nghymru a Lloegr yw £25,000. Yn seiliedig ar gostau uned cyfartalog cenedlaethol, a gan ganiatáu ar gyfer costau rheolwyr trydydd sector o 10% ar y cytundeb, dylai cytundeb pris sefydlog o £400,000 y flwyddyn ddarparu o leiaf 11 TDCA cyfwerth â llawn amser.

*Memorandwm Dealltwriaeth*

Bydd Memorandwm Dealltwriaeth mewn grym rhwng partneriaid comisiynu i sicrhau eglurder o ran trefniadau rheoli perfformiad, risg ac ariannol. Bydd angen cytundeb ar wahân rhwng Awdurdodau Lleol mewn perthynas â'r trefniadau bancio rhanbarthol ar gyfer derbyn grant VAWDASV Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

*Amserlenni Caffael*

Amlinellit yr amserlenni caffael arfaethedig isod. Mae rhanddeiliad allweddol wedi cydnabod bod yr amserlen hon yn dynn a bod angen cynnwys gradd o hyblygrwydd. Bydd pob corff comisiynu'n cysylltu â'u darparwyr presennol er mwyn estyn trefniadau cyfredol am gyfnod o 3 mis er mwyn caniatáu ar gyfer hyn.

| **Dyddiad** | **Tasg** |
|---|---|
| 06/11/2018 | Gosod hysbysiad cytundeb ar gwerthwchigymru.co.uk |
| 06/11/2018 | Uwchlwytho dogfen gwahoddiad i dendro ar system dendro electronig Etenderwales |

| | |
|---|---|
| | Dyddiad cau ar gyfer ymholiadau a cheisiadau am eglurhad |
| 11/12/2018 | Dyddiad dychwelyd GID |
| 11/12/2018 tan 15/01//2018 | Gwerthuso ymatebion (panel gwerthuso o gomisiynwyr allweddol, gyda chyfweliadau darparwyr yn galluogi mewnbwn gan ddefnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid ychwanegol)<br>Drafftio adroddiad argymhelliad gwobrwyo |
| 15/01/2018 | Cymeradwyo'r adroddiad argymhelliad gwobrwyo |
| 15/01/2018 | Hysbysiad bwriad i wobrwyo |
| 15/01/2018 tan 26/01/2018 | Cyfnod safiad stond |
| 26/01/2018 | Gwobrwyo cytundeb – hysbysu cynigiwr |
| 01/02/2018 | Cychwyn Byddino |
| 01/05/2018 | Cytundeb yn Fyw |

*Argymhellion*

- O ystyried bod cyllid gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a chyflogwyr lletyol wedi bod yn cymorthdalu cytundebau Awdurdod Lleol yn hanesyddol, cynigir bod rhaniad 50/50 yn cael ei gytuno rhwng cyfraniad Awdurdod Lleol a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu o ran ariannu'r gwasanaeth TDCA yn y dyfodol. Mae hyn yn cyfateb i gyfraniad ariannol cyfunol gan Awdurdodau Lleol ledled Dyfed-Powys o £200,000 i'w gydgyfrannu gyda £200,000 gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu er mwyn galluogi cyflawni darpariaeth status quo isaf.

Atodiad i

Mae uchafbwyntiau'r fanyleb gwasanaeth yn cynnwys:

- Gwasanaeth i fynd i'r afael â diogelwch pobl sydd mewn perygl uwch o gam-drin domestig a thrais domestig gan bartneriaid agos, cynbartneriaid ac aelodau o'r teulu.
- Gan weithredu fel y prif bwynt cyswllt, bydd TDCA yn gweithio gyda'u cleientiaid o'r pwynt argyfwng i asesu'r perygl, adolygu opsiynau, a datblygu a gweithredu cynlluniau i fynd i'r afael â'u diogelwch syth, yn ogystal â datrysiadau tymor hirach.
- Ni fydd y gwasanaeth yn gweithio'n uniongyrchol â phlant o dan 16 oed, ond byddant yn gwneud cyfeiriadau i ddiogelu plant sydd mewn perygl o niwed a sicrhau cyfeirio priodol i wasanaeth cymorth arbenigol.
- Bydd y gwasanaeth ar gael ar gyfer pob cleient sy'n cael ei effeithio gan gam-drin domestig, waeth pa beth bynnag yw ei ryw, rhywioldeb, ethnigrwydd neu anabledd.
- Disgwylir i'r cynigiwr/cynigwyr llwyddiannus weithio mewn partneriaeth agos â gwasanaethau perthnasol eraill er mwyn cynnal cyflenwi gwasanaeth cyffredinol.
- Bydd y sefydliad hefyd yn gweithio fel partner datblygiadol i helpu i lunio cyfeiriad mynd i'r afael â VAWDASV yn Nyfed-Powys yn y dyfodol.
- Bydd angen i'r darparwr llwyddiannus ddangos eu bod nhw'n medru bodloni'r safonau ansawdd gofynnol, bod staff wedi eu hyfforddi'n briodol (yn unol â chymwysterau TDCA a safonau fframwaith hyfforddi cenedlaethol) a'u bod nhw'n gweithredu fframweithiau rheoli ansawdd cadarn.
- Mae'r Comisiynwyr yn bwriadu cytundebu â darparwr sengl, fodd bynnag, croesewir trefniadau is-gontractio, trefniadau partneriaeth a/neu ymagwedd consortiwm tuag at gyflenwi gwasanaeth.